Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# Cynllun Cyfarthfa

## Briff i'r Wasg a Lansiad

Embargo tan
00.01 12 Ionawr 2021

# CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| Datganiad i'r Wasg | 3 |
| Deunydd gweledol | 5 |
| Sylwadau | 6 |
| Cwestiynau Cyffredin | 8 |
| Tîm Cynllun Cyfarthfa | 10 |
| Sefydliad Cyfarthfa | 11 |
| Y Stori Hyd Yma | 12 |
| Cyfarthfa – Dyddiadau allweddol | 13 |
| Cysylltiadau | 14 |

**Terfynol 7.1.21**

# DATGANIAD I'R WASG

**Embargo tan**
**00.01 12 Ionawr 2021**

## Bydd Cynllun Cyfarthfa yn datgelu pwysigrwydd byd-eang crwsibl y chwyldro diwydiannol ac yn gweithio mewn cytgord â natur

Yn ôl adroddiad a gyhoeddir heddiw, gallai cynlluniau i drawsnewid Castell Cyfarthfa Merthyr Tudful yn amgueddfa o ansawdd rhyngwladol a leolir mewn parc cyhoeddus 100 hectar estynedig, ddenu mwy na hanner miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn ac "ymegnïo cysyniad Parc Rhanbarthol y Cymoedd".

Dywed yr adroddiad y byddai'r cynllun yn 'agor penodau newydd o ran twristiaeth Cymru, a'i datblygiad cymunedol a diwylliannol a chynaliadwyedd' a 'chreu prosiect enghreifftiol i arddangos grym ac effeithiolrwydd agenda Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol'.

Mae Cynllun Cyfarthfa, sy'n rhychwantu 20 mlynedd, yn ganlyniad i 12 mis o waith tîm dan arweiniad y penseiri o fri, Ian Ritchie Architects. Comisiynwyd y cynllun gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac mae eisoes wedi cael ei gymeradwyo'n unfrydol.

Ffurfiwyd cwmni newydd – Sefydliad Cyfarthfa – i symud y cynllun yn ei flaen ac mae'n ceisio cael statws elusennol ar hyn o bryd. Cafodd y cynlluniau hefyd eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Dywedodd Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog dros Economi a Thrafnidiaeth a Chadeirydd Gweithlu'r Cymoedd: "Gallai'r cynlluniau a gyflwynwyd arwain at Gastell a Pharc Cyfarthfa'n dyfod yn brif atyniad ac yn wagle gwyrdd pwysig i breswylwyr ac ymwelwyr ei fwynhau am flynyddoedd lawer i ddod. Rydym wedi darparu nawdd i'r parc fel rhan o Borth Darganfod Parciau Rhanbarthol y Cymoedd.

"Rwy'n diolch i bawb am eu gwaith gyda hyn hyd yma, ac rwyf wedi cael anogaeth yn benodol o'r ffaith fod ethos y prosiect hwn yn un sydd ag 'ymagwedd hir dymor at adfywio o'r gwaelod i fyny, dan arweiniad cymuned'. Mae hyn yn adleisio Gweithlu'r Cymoedd a Cadw yn berffaith. Byddwn ni'n ystyried manylion y cynigion hyn nawr".

Mae'r adroddiad yn cyflwyno cynllun triphlyg ar gyfer y castell a 'Pharc Cyfarthfa Mwyaf' a fydd yn

- "dathlu hanes a threftadaeth unigryw Merthyr Tudful, fel sbardun i adnewyddiad cymdeithasol
- "dathlu a gwella'r amgylchedd naturiol i ddarparu lleoliad prydferth ar gyfer hamdden, addysg a chynnydd gwyddonol

- “creu injan o greadigrwydd a all gofleidio’r gymuned i gyd”.

Mae’n datgan: “Byddai gwireddu’r cynigion hyn yn newid safbwynt gweddill y byd am Ferthyr Tudful a chymunedau eraill y Cymoedd. Byddai’n ymegnïo cysyniad Parc Rhanbarthol y Cymoedd drwy roi iddo graidd o wir raddfa ac effaith.

“Byddai hefyd yn dod â rhywbeth newydd a chymhellol i economi’r Brif-ddinas Ranbarth, mewn ardal o angen mawr, ag iddo agenda clir o ddiben cymdeithasol”.

Mae’r adroddiad yn cyflwyno rhestr o fwy na 70 o brosiectau posibl wedi eu rhannu’n gategorïau: ‘rhaid gwneud’, ‘dylid gwneud’ a ‘gellir gwneud’. Ymhlith y cynigion allweddol mae:

- Bron dyblu maint presennol Parc Cyfarthfa, estyniad tua’r gorllewin gan gynnwys dwy ochr Afon Taf, a ‘gwella tirlun clwyfedig’.

- Adnewyddu Castell Cyfarthfa – cartref y Crawshays, meistri haearn enwog y 19eg ganrif – a chreu orielau arddangos newydd a fydd yn dathlu hanes diwydiannol a chymdeithasol Merthyr Tudful yng Nghymru.

- Achub ffwrneisiau 200 mlwydd oed Cyfarthfa i’r gorllewin o Afon Taf, heneb gofrestredig o bwysigrwydd byd-eang, ond sydd mewn perygl ar hyn o bryd.

- ‘Ffordd Haearn’ newydd – llwybr cerdded dramatig ar lefel uchel yn cysylltu’r castell a’r ffwrneisiau, i adleisio traphont ddŵr o’r 19eg ganrif, a oedd yn pontio’r dyffryn.

- Mynedfa newydd ‘Porth Wydr’ drwy’r parc at ran ddwyreiniol y castell – yn cynnwys dau dŷ gwydr enfawr – mae diamedr 50 medr i’r mwyaf – gan atseinio tai gwydr y castell yn y 19eg ganrif sydd bellach wedi diflannu.

- Datblygu adeiladau Fferm y Pandy gyferbyn â’r fynedfa i’r castell fel gwir ased cymunedol, yn cynnig cyflogaeth go iawn a safleoedd gwaith.

- Gardd lysiau gymunedol wyth erw - a allai hefyd gynhyrchu cynnyrch i allfeydd newydd yn y castell - ynghyd â chreu dolydd bioamrywiol.

Mae’r cynllun hefyd yn gosod pwyslais cryf ar addysg. Mae’n cynnig ‘canolfan cyd-greu’ yn y castell i ymestyn rhaglen addysg y castell a’i raglen allgymorth, tra bo safle yn cael ei gadw ger cydlifiad afonydd Taf a Thaf Fechan ar gyfer sefydliad amgylcheddol newydd posibl y gellir ei gysylltu â sefydliad addysg uwch.

Dywedodd Jonathan Shaw, arweinydd prosiect Ian Ritchie Architects,: “Cynllun strategol 20 mlynedd yw hwn a fydd yn datgelu pwysigrwydd byd-eang gorffennol diwydiannol Merthyr Tudful a gweithio mewn cytgord â natur i drawsnewid ardal Cyfarthfa.

“Dylai’r prosiect dyfu ochr yn ochr â bywydau’r genhedlaeth ieuengaf wrth iddynt dyfu’n oedolion. Rydym wedi datblygu’r cynlluniau hyn yn dilyn ymgynghoriad helaeth ag ysgolion, pobl ifanc a sefydliadau cymunedol ym Merthyr.

“Mae’n tynnu ar hanes dihafal cymdeithasol, gwleidyddol a diwydiannol Merthyr Tudful a Chymru, ei safle fel porth deheuol i Fannau Brycheiniog, a’i safle canolog ym Mharc Rhanbarthol y Cymoedd ehangach,” ychwanegodd.

Dywedodd y Cynghorydd Geraint Thomas, Aelod Cabinet dros Adfywio: “Adroddiad gweledigaethol yw hwn sy’n disgrifio trawsnewidiad a fydd o werth anferthol i Ferthyr Tudful, i ardal blaenau’r cymoedd a Chymru gyfan. Y mae’n dathlu penodau pwysig yn ein gorffennol cenedlaethol, ond mae ei bwyslais yn gadarn ar anghenion cenedlaethau’r dyfodol.”

Dywedodd Geraint Talfan Davies, a fydd yn cadeirio Sefydliad Cyfarthfa: “Mae tîm Ian Ritchie wedi cynhyrchu adroddiad hynod o gyffrous a chyfoethog sy’n agor amryw o gyfleoedd i ddefnyddio ein gorffennol, a stori Merthyr yn benodol, fel man cychwyn i fynd i’r afael â heriau’r 21ain ganrif. Mae hwn yn brosiect o bwysigrwydd cenedlaethol yn ogystal â lleol.”

Dywedodd Carole-Anne Davies, Prif Weithredwr Comisiwn Dylunio Cymru: “Mae’r comisiwn wedi bod yn ymgysylltu’n agos o ran esblygiad y cynllun hwn, ac rydym wrth ein boddau oherwydd nid yn unig yw canlyniad terfynol pedair blynedd, bron, o gydweithio yn gasgliad o gynigion o ansawdd ac uchelgais, ond y mae hefyd yn gynllun sy’n seiliedig ar werthoedd cymdeithasol ac amgylcheddol da. Bydd yn bwysig dal gafael ar y gwerthoedd a’r safonau hynny wrth i’r cynlluniau gael eu gwireddu.”

DIWEDD

**DEUNYDD GWELEDOL**

**1. Delweddau Llonydd**
Mae’r ddolen Dropbox hon yn eich arwain at ddelweddau llonydd. Mae’n cynnwys 14 delwedd am wahanol agweddau o’r prosiect:

https://www.dropbox.com/sh/ss8ylklhgvzieoz/AACFRPC0Ao8bkm9JUXnSfWpba?dl=0

**2. Ffilm**
Ffilm 12 munud yn cynnwys ffilm o’r safle a chyfweliadau, gyda neu heb gerddoriaeth.

**3. Crynodeb Gweithredol**
Caiff copi res isel 42 tudalen o’r Crynodeb Gweithredol ei anfon ar wahân.

# Sylwadau ar Gynllun Cyfarthfa

**Ian Ritchie**
**Pennaeth, Penseiri Ian Ritchie**
"Mae potensial y cynllun hwn yn enfawr. Mae'n cynrychioli dull newydd o weithredu sy'n cyfuno nid yn unig hanes, treftadaeth, adeiladau a thwristiaeth ond hefyd adnewyddiad cymdeithasol a strwythurol. Mae llesiant pobl yn ganolog i'r prosiect hwn. Mae gan bob un ohonom yr angen am ofod ac am obaith a phethau i'n hysbrydoli ni. Mae'r cynllun a'r gymuned dan sylw yn meddu ar egni fydd yn cario pobl drwodd i le hapusach."

**Jonathan Shaw**
**Arweinydd Prosiect, Penseiri Ian Ritchie**
"Mae Cynllun Cyfarthfa yn cael ei arwain gan bobl, a bydd yn rhoi cymuned Merthyr Tudful wrth galon ei weithrediadau dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae hwn yn gynllun sy'n cynnwys prosiectau trawsnewidiol ar raddfa fawr, digwyddiadau ar raddfa fach, prosiectau cymunedol, cystadlaethau dylunio dan arweiniad ysgolion, gofodau cyflogaeth creadigol, mannau cyd-greu sy'n ymgysylltu â'r celfyddydau creadigol, effaith ar yr hinsawdd, a hanes y dref. Mae hefyd yn gynllun fydd yn diogelu ein treftadaeth ddi-ail ac asedau naturiol y dref ac yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf."

**Mary Bowman**
**Gustafson, Porter + Bowman, Penseiri Tirwedd**
"Mae Parc Cyfarthfa yn cynnig adnodd naturiol anhygoel i Ferthyr Tudful. Bydd y coetir aeddfed, y dolydd, y parcdir, Cwm Taf Fawr a Chwm Taf Fechan, y ffrydiau, y pyllau a'r llynnoedd i gyd yn cael eu gwneud yn fwy hygyrch i drigolion ac ymwelwyr. At hynny, bydd adfywio'r dirwedd yn datgelu hanes y safle trwy blethu'r llinynnau naratif sy'n olrhain y gydberthynas rhwng dyn a natur. Mae Parc Cyfarthfa yn dirwedd naturiol hardd a drawsnewidiwyd gan ei orffennol diwydiannol. Bellach, gellir ei ddychmygu o'r newydd fel tirwedd a chyrchfan gyfoes sy'n cynnig mwynhad ar draws y cenedlaethau."

**Dan Anderson**
**Fourth Street Consultants, Dadansoddwyr Cyrchfannau Busnes**
"Mae'r cynllun hwn yn cynrychioli cyfle unigryw i ailddiffinio hunaniaeth economaidd Merthyr Tudful a'r Cymoedd ar adeg pan fo pob un ohonon ni'n ceisio canfod 'normal newydd' yn sgil y pandemig byd-eang a'r argyfwng hinsawdd. Bydd yn darparu rhesymau newydd dros ymweld â'r ardal, ond yn ei disgrifio hefyd fel lle gwych i fyw, i weithio, i astudio ac i gychwyn busnes. Caiff ei lwyddiant ei fesur gan hapusrwydd, iechyd, addysg a ffyniant y plant sy'n tyfu lan yma."

**Y Cynghorydd Lisa Mytton**
**Y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Ddysgu**
"Mae angen i asedau treftadaeth Merthyr Tudful chwarae rhan yr un mor fawr yn nyfodol y dref a'r rhanbarth ag y gwnaethant yn y gorffennol. Rwy'n falch ein bod wedi gallu comisiynu cynllun gweledigaethol a fydd yn gwella proffil y dref, yn ennyn diddordeb ei thrigolion ac yn sefydlu bloc adeiladu pwysig ar gyfer y ddinas-ranbarth gyfan. Yma, mae gennym stori o bwys byd-eang ac mae'n rhaid iddi gael ei hadrodd mewn modd deinamig er budd cenedlaethau'r dyfodol."

"Rwy'n arbennig o falch fod y cynllun yn rhoi ffocws mor glir ar ein pobl ifanc. Daw cyfoeth ei botensial i'r amlwg nid yn unig wrth addysgu pobl ifanc am orffennol eu

cymuned a phwysigrwydd yr amgylchedd naturiol, ond hefyd wrth agor eu llygaid i gyfleoedd y dyfodol. Yn wir, gall hyn fod yn ddechrau cyfnod newydd i Ferthyr."

**Y Cynghorydd Geraint Thomas**
**Yr Aelod Cabinet dros Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd**

"Am nifer o flynyddoedd, mae Merthyr wedi bod yn gawr ynghwsg yng nghymoedd y de, a dwi erioed wedi gweld cynllun fel hwn. Ar ôl iddo gael ei gwblhau, bydd e'n barc treftadaeth ddiwydiannol aruthrol o 100 hectar ac yn creu hyd at 200 o swyddi llawn-amser. Mae Merthyr bob amser wedi bod yn enwog am ail-greu ei hun, a rhaid i dwristiaeth fod yn rhan hanfodol o'n dyfodol. Bydd dysgu o'n gorffennol a'n treftadaeth a throi hynny'n atyniad modern i ymwelwyr yn ychwanegiad hanfodol arall i'n harlwy."

**Geraint Talfan Davies**
**Cadeirydd, Sefydliad Cyfarthfa**

"Gall y cynllun hwn fod yn rhan o daith Merthyr tuag at adferiad yn dilyn cyfnod COVID, ac yn fodd i fywiogi'r cysyniad ehangach o Barc Rhanbarthol y Cymoedd yn y blynyddoedd i ddod. Wrth ei wireddu, bydd yn rhaid inni ymdrechu i sicrhau'r ansawdd rhyngwladol uchaf a'r gwreiddiau cymunedol dyfnaf. Dyna'r union gyfuniad a fydd yn ei wneud yn drawsnewidiol."

**Carole-Anne Davies**
**Prif Weithredwr, Comisiwn Dylunio Cymru**

"Mae Penseiri Ian Ritchie a'u tîm cyfan wedi plethu nifer o linynnau pwysig at ei gilydd i greu gweledigaeth uchelgeisiol a chyfannol. Mae'r cynllun sy'n deillio o hyn yn ystyried nid yn unig yr angen i ddenu ymwelwyr, ond hefyd y potensial ar gyfer ymgysylltiad dwfn, hirdymor â'r gymuned. Yn ganolog i'r briff gwreiddiol oedd creu lleoedd llawn dychymyg ac amlygu pwysigrwydd cenedlaethau'r dyfodol, ac mae'r tîm wedi ymateb gyda chreadigrwydd a gwir ddealltwriaeth o gyfoeth, cymhlethdod ac arwyddocâd y lle hwn."

**Jane Sellwood**
**Prif Weithredwr, Wellbeing@Merthyr (Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful)**

"Mae'r tîm cyfan yn Wellbeing@Merthyr yn croesawu'r pwyslais a rodda'r cynllun ar asedau diwylliannol y dref sy'n anarferol o gyfoethog a nodedig ac yn cynnwys casgliadau archifol ac artistig gwych. Dyma gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i blethu'r rhain ynghyd o fewn naratif cryf a chroyw. Gyda'n gilydd, gallwn sôn wrth y byd am y straeon rhyfeddol sy'n ymwneud â'r newidiadau cymdeithasol a thechnolegol, y radicaliaeth, yr arloesedd a'r creadigrwydd a gafodd eu 'gwneud ym Merthyr Tudful', ac a aeth ymlaen i lunio llawer o'r hyn a welwn yng Nghymru a'r byd ehangach yn yr oes fodern."

# Cwestiynau Cyffredin

1. **Faint o frys sydd i'r mater hwn?**
Cryn dipyn. Nid yw gwneud dim yn opsiwn. Mae taer angen sefydlogi Ffwrneisi Cyfarthfa sy'n 200 oed. Mae'r Castell hefyd mewn cyflwr gwael. Ni all Merthyr a Chymru fforddio gweld dirywiad pellach i'w hoff strwythurau hanesyddol sy'n ganolog i hanes y genedl. Gallai gwneud dim arwain at golli rhannau sylweddol o'r dreftadaeth genedlaethol a drysorwn. Yn lle hynny, bydd y cynllun hwn yn rhoi bywyd newydd iddynt mewn ffordd a fydd yn sicrhau buddion cymdeithasol ac economaidd go iawn.

2. **Sut mae COVID yn effeithio ar y cynllun hwn?**
Gall y cynllun hwn fod yn rhan o daith tuag at adfer lle a darwyd yn galed gan y pandemig. Dros y degawdau, mae Merthyr a'r Cymoedd wedi cael mwy na'u siâr o ergydion caled, ond nid yw anobaith erioed wedi cynnig yr ateb iawn. Mae'r cynllun hwn yn gychwyn sy'n rhoi siâp ar ddyfodol cyffrous. Mae'n adeiladu nid yn unig ar hanes Merthyr Tudful ond hefyd ar y gwerthoedd cymunedol sydd wedi cynnal yr ardal hon er gwaethaf popeth. Mae COVID yn argyfwng arall y bydd y gymuned hon yn ei oresgyn. Rhaid inni beidio ag oedi cyn edrych y tu hwnt iddo. Dechreuodd y gwaith o gynllunio'r wladwriaeth les yng nghanol y rhyfel, nid ar ei ddiwedd.

3. **Faint o swyddi gaiff eu creu?**
Yn uniongyrchol, bydd yn creu rhwng 150 a 200 o swyddi llawn-amser newydd a pharhaol, ynghyd â 95 o swyddi eraill wrth i'r prosiectau gael eu llunio. *Nid* yw'r amcangyfrif hwn yn cynnwys yr effaith economaidd bellach a ddaw yn sgil grym gwario cynyddol y trigolion lleol ynghyd â'r swyddi eraill a grëir gan fuddsoddiadau mewnol a busnesau newydd, wrth i bobl newid eu canfyddiadau am Ferthyr Tudful fel lle i fyw, gweithio a buddsoddi ynddo.

4. **Faint fydd y gost?**
Bydd hyn yn dibynnu ar ba rai o'i amryfal elfennau a gaiff eu blaenoriaethu ac ar yr amserlen i'w gwireddu. Bydd datblygu Castell Cyfarthfa yn amgueddfa fodern o ansawdd rhyngwladol, yn costio o fewn y £50m a amcangyfrifwyd yn wreiddiol yn Adroddiad Crwsibl 2018.

   Cynllun 20 mlynedd yw hwn a fydd yn newid dros amser. Mae'r uwchgynllun yn cynnwys llawer o wahanol elfennau, a chaiff rhai ohonynt eu darparu gan Sefydliad newydd Cyfarthfa yn unig, rhai gan yr Sefydliad honno mewn partneriaeth ag eraill, a rhai gan bartïon eraill a fydd yn manteisio ar y platfform a grëir.

5. **Sut caiff ei ariannu?**
Bydd y rhaglen ddatblygu hon yn parhau am 20 mlynedd ac yn darparu fframwaith fuddsoddi ac iddo sawl ffynhonnell yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Bydd cefnogaeth gynnar Llywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn hanfodol bwysig, ond byddwn hefyd yn ystyried noddwyr, dyngarwyr, ymddiriedolaethau a sefydliadau eraill.

   Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynorthwyo'r gwaith paratoi gyda grant o £80k fel y gellir cynnal prosiect dwys ar Astudio Archifau i ddatblygu sylfaen wybodaeth. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi cychwyn o dan gyd-gadeiryddiaeth Aled Jones (Cyn-bennaeth Llyfrgell Genedlaethol Cymru) a Geraint Talfan Davies, ac maent yn cydweithio â CBSMT a staff Llyfrgelloedd ac Archifau Merthyr Tudful.

6. **Pam na all y Cyngor wneud hyn i gyd?**
   Mae adnoddau dynol ac ariannol y Cyngor yn gyfyngedig, yn enwedig ar ôl cyni ariannol y 10 mlynedd diwethaf. Nid oes gan y Cyngor unrhyw ddewis ond canolbwyntio ar ei swyddogaethau statudol. Mae hyn yn golygu na all neilltuo'r adnoddau sydd eu hangen ar frys i atal Cyfarthfa rhag dirywio ymhellach, heb sôn am ei ddatblygu i'w lawn botensial.

   Creu elusen annibynnol yw'r unig ffordd ymarferol i gasglu'r cyllid angenrheidiol - o ffynonellau megis y llywodraeth, y loteri genedlaethol, busnesau ac elusennau. Bydd yr Sefydliad yn sefydlu corff gydag un ffocws yn unig, sef datblygu Cyfarthfa ac asedau treftadaeth eraill ym Merthyr. Ei nod fydd sicrhau bod y gymuned a'r rhanbarth yn elwa gymaint â phosibl o hyn - yn economaidd, yn addysgol, yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn ddiwylliannol.

7. **Beth fydd rôl yr Ymddiriedolaeth Hamdden sy'n rheoli Cyfarthfa nawr?**
   Bydd yr Ymddiriedolaeth Hamdden yn parhau i reoli Cyfarthfa tra bydd Sefydliad Cyfarthfa yn sefydlu'r corff newydd a hyd nes ei fod yn barod i gymryd perchnogaeth lawn o Gastell a Pharc Cyfarthfa. Yn y cyfamser, mae Pwyllgor Cyswllt wedi'i sefydlu, a chytunwyd ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth, a fydd yn sicrhau cydweithrediad agos rhwng yr Sefydliad newydd, yr Ymddiriedolaeth Hamdden a'r Cyngor. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Hamdden ystod eang o gyfrifoldebau am sawl gwasanaeth, ond bydd Cynllun Cyfarthfa yn gofyn bod y bwrdd a'r staff a ddaw o Gymru, y DU a thu hwnt, yn meddu ar ffocws neilltuol ac arbenigedd penodol ar lefel uchel.

8. **Sut caiff buddiannau Merthyr Tudful eu diogelu?**
   Mae'r cynnig yn ceisio cydbwyso gofyniad y sefydliad elusennol am lywodraethiant annibynnol â'r angen i ddiogelu buddiannau'r Cyngor a phobl Merthyr Tudful.

   a) Bydd Sefydliad Cyfarthfa yn elusen a sefydlir i hyrwyddo ystod o ddibenion cyhoeddus, gan gynnwys cylch gwaith pwerus ar gyfer addysg. Bydd yr Sefydliad yn gwmni nid-er-elw. Bydd ei amcanion a'i berfformiad yn cael eu goruchwylio gan y Comisiwn Elusennau.

   b) Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn Aelod Sefydlol o'r cwmni, a bydd ganddo ddau gynrychiolydd ar ei fwrdd.

   c) Mae Pwyllgor Cyswllt rhwng yr Sefydliad, y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth Hamdden eisoes wedi'i sefydlu ac mae'n gweithio o dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth cytunedig.

**DIWEDD**

# Tîm Cynllun Cyfarthfa

**Penseiri Ian Ritchie** **Penseiri a Dylunwyr Trefol**
Mae Penseiri Ian Ritchie wedi ennill mwy na 60 o gystadlaethau yn Ewrop a'r DU, ac wedi derbyn dros 100 o wobrau cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys dwy wobr ryngwladol am arloesi. Enwebwyd ei bractis bedair gwaith am y Wobr Stirling, gwobr bensaernïaeth fwyaf y DU, a dwywaith ar gyfer un o wobrau uchaf ei bri yn Ewrop sef y Wobr Mies.

Trwy ei bractis peirianneg dylunio ym Mharis sef RFR, cydweithiodd Ian Ritchie ag IM Pei, y pensaer Tsieineaidd-Americanaidd, ar ddylunio'r pyramid gwydr enwog yn y Louvre. Yn ychwanegol, fe ddyluniodd ei bractis y "Spire" sef meindwr 120 metr o uchder yn Nulyn, a hefyd y tyrau lifft gwydr enwog yn Amgueddfa Celf Fodern Reina Sofia ym Madrid. Mae'r practis hefyd wedi cynhyrchu uwchgynlluniau ar gyfer datblygu'r Amgueddfa Brydeinig a Phont Humber. Yn ddiweddar, cwblhaodd iRAL y dasg o drawsnewid theatr opera a neuadd ddatganiadau'r Academi Gerdd Frenhinol, gan ennill dros 20 o wobrau cenedlaethol a rhyngwladol.

**Gustafson Porter + Bowman** **Penseiri Tirwedd**
Mae Gustafson Porter + Bowman yn bractis o benseiri tirwedd arobryn sy'n meddu ar bortffolio byd-eang. Yn ddiweddar, fe enillodd gystadleuaeth i ailgynllunio'r ardal o amgylch Tŵr Eiffel. Mae ei brosiectau amrywiol i'w gweld ymhob math o barthau hinsawdd, nodweddion daearyddol a chefndiroedd hanesyddol a diwylliannol, ac maent yn cynnwys Ffynnon Goffa Diana, Tywysoges Cymru (Llundain 2004), Cultuurpark Westergasfabriek (Amsterdam 2006), Old Market Square (Nottingham 2007), a Parque Central (Valencia 2019).

**Fourth Street** **Dadansoddwyr Cyrchfan Busnes**
Mae Fourth Street yn arbenigo mewn creu lleoedd a datblygu cyrchfannau. Mae wedi bod yn rhan o brosiectau amrywiol ym maes treftadaeth, y celfyddydau a diwylliant, chwaraeon, hamdden a thwristiaeth. Mae'r prosiectau hynny'n cynnwys Shakespeare's Globe, yr Old Royal Naval College ac Alexandra Palace yn Llundain, Hen Goleg y Brifysgol yn Aberystwyth, Tŷ Pawb yn Wrecsam, y Bont Gludo yng Nghasnewydd, y Biggin Hill Memorial Museum, a'r Cavern Quarter yn Lerpwl.

**Arup** **Peirianwyr Amlddisgyblaethol**
Mae Arup yn grŵp rhyngwladol sy'n arwain y byd ar ddarparu gwasanaethau ymgynghori ar bob agwedd o'r amgylchedd adeiledig. Mae wedi cynghori ar brosiectau megis Adeilad Copa'r Wyddfa, y London Eye, Angel of the North, ac adeilad Senedd yr Alban.

**Equals** **Ymgynghorwyr Cost**
Mae Equals yn darparu gwasanaethau ymgynghori ar gyfer prosiectau a chostau, ac mae wedi cynghori ar brosiectau megis yr Amgueddfa Brydeinig, yr Amgueddfa Ryfel Ymerodrol, yr Amgueddfa Hanes Naturiol, Amgueddfa Victoria & Albert a'r Tŷ Opera Brenhinol.

**Julia Holberry Associates** **Ymgysylltu â'r Gymuned a'r Cyhoedd**
Mae JHA yn gweithio gydag amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau i ddyfeisio gweithgareddau a datblygu cynlluniau strategol a deongliadol. Ymhlith ei gleientiaid mae Pont Gludo Casnewydd, Amgueddfa'r RAF, Royal Hospital Chelsea, a'r V&A yn Dundee.

**The Whole Story** **Ymgysylltu â'r Cyhoedd / Casglu Naratif**
Mae The Whole Story yn defnyddio technegau chwedleua i ganolbwyntio ar bobl a thimau a'u cynnwys mewn newidiadau a strategaethau newydd. Mae wedi gweithio gyda'r Science Museum, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, London Transport Museum, Casgliad Wallace, a Sw Caer.

# Sefydliad Cyfarthfa

Bellach, mae Sefydliad Cyfarthfa wedi'i sefydlu fel y cyfrwng i gyflawni'r prosiect. Mae'n gwmni annibynnol sydd wedi'i gyfyngu trwy warant ac mae eisoes wedi gwneud cais am statws elusennol llawn.

Rhagwelwyd o'r cychwyn y byddai hyn yn angenrheidiol i wireddu'r cynllun. Heb "gyfrwng at ddibenion arbennig" ac iddo statws elusennol, ni fyddai modd denu'r prif sefydliadau elusennol i gyfrannu at gostau cyfalaf ac amrywiaeth o brosiectau cymunedol.

Dyma'r strwythur mwyaf cyffredin a fabwysiadwyd gan sefydliadau sylweddol yn y sector diwylliannol - amgueddfeydd, orielau, a sefydliadau celfyddydol eraill megis Canolfan Mileniwm Cymru a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

Mae'r Cyngor wedi cytuno'n unfrydol ar Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu Sefydliad Cyfarthfa, ac mae'r cwmni wedi'i gofrestru.

Bydd gan Sefydliad Cyfarthfa hyd at 12 o gyfarwyddwyr. Dyma'r rhai cychwynnol:

**Geraint Talfan Davies (Cadeirydd)**
Awdur yr Adroddiad Crwsibl cychwynnol, cyn-Reolwr BBC Cymru a chyn-Gadeirydd Opera Cenedlaethol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

**Rowland Davies**
Cyfreithiwr ac arbenigwr eiddo, a chyn-bartner gyda Geldards. Mae ganddo brofiad o brosiectau ar y raddfa hon yn sgil y cyngor a roddodd i sylfaenwyr Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

**Helen Protheroe**
Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr y Coleg Celf Brenhinol - hi sy'n goruchwylio gweithgareddau a chysylltiadau allanol y Coleg mewn perthynas ag elusennau a chyn-fyfyrwyr ar draws y byd. Mae Helen, sy'n wreiddiol o Ferthyr Tudful, hefyd wedi ymgymryd â rolau gweithredol ar gyfer Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru, Cwpan y Byd Digartref (Cymru), y Tŷ Opera Brenhinol a'r Amgueddfa Ddylunio.

**Y Cynghorydd Geraint Thomas**
Yr Aelod Cabinet dros Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd.

**Y Cynghorydd Lisa Mytton**
Y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Ddysgu.

Y bwriad yw recriwtio saith aelod arall o'r bwrdd trwy broses gyhoeddus ac agored. Yn ogystal â chynrychiolaeth gymunedol, rydym yn bwriadu recriwtio pobl ag arbenigedd lefel-uchel yn y meysydd canlynol: cynllunio trefol a phensaernïaeth, cynllunio tirwedd, treftadaeth, amgueddfeydd, twristiaeth a chynaliadwyedd.

Bydd yr Sefydliad yn parhau i elwa o gyfeillgarwch beirniadol y Comisiwn Dylunio a'i gyfraniad arbenigol.

# Y Stori Hyd Yma

| | |
|---|---|
| **Hyd 2017** | *Charrette* dylunio yng Nghastell Cyfarthfa. 60 o bobl o amrywiaeth o ddisgyblaethau a'r gymuned yn ymgynnull gyda chymorth Comisiwn Dylunio Cymru ac Ysgol Pensaernïaeth Cymru i wyntyllu syniadau ynghylch datblygu Cyfarthfa. |
| **Mai 2018** | Cyhoeddi adroddiad am y *charrette* gan Gomisiwn Dylunio Cymru gyda Geraint Talfan Davies fel awdur ar y cyd – *Adroddiad y Crwsibl*. Mae'n argymell datblygu'r castell a'r ystâd fel canolfan genedlaethol ar gyfer treftadaeth ddiwydiannol ac fel prosiect angori wrth ddatblygu potensial twristiaeth Cymoedd De Cymru. |
| **Meh 2018** | Mae'r Cyngor yn derbyn argymhelliad Adroddiad y Crwsibl yn unfrydol. |
| **Maw 2019** | Caiff briff ei ddatblygu gan Gomisiwn Dylunio Cymru ar gyfer ymarferiad cynllunio meistr a'i gyhoeddi ar gyfer tendr cystadleuol. |
| **Meh 2019** | Penodi cwmni penseiri Ian Ritchie Architects, i arwain tîm amlddisgyblaethol ar ôl ymarferiad cystadleuol sy'n denu cwmnïau blaenllaw ledled y DU a gweddill Ewrop. |
| **Med 2019** | Mae'r ymgynghorwyr yn dechrau ar amserlen waith 12 mis. |
| **Med-Maw** | Ymgynghori helaeth gydag ysgolion, grwpiau cymunedol, sefydliadau treftadaeth. |
| **Maw 2020** | Cyfnod Clo Mawr Covid yn dechrau. |
| **Ebr 2020** | Llywodraeth Cymru'n cytuno ar £80k ar gyfer Astudiaeth Archifau cydamserol i ddarparu sail o wybodaeth ar gyfer arddangosiadau yng Nghyfarthfa. |
| **Aws 2020** | Penodi ymgynghorwyr archif sy'n dechrau ar yr amserlen waith o chwe mis. |
| **Tach 2020** | Mae'r Cyngor yn cytuno'n unfrydol â'r Cynllun Meistr.<br><br>Sefydlu Sefydliad Cyfarthfa fel 'cyfrwng at ddibenion arbennig' i gludo'r prosiect yn ei flaen.<br><br>Mae'r Sefydliad yn cyflwyno ei argymhelliad cyntaf i Lywodraeth Cymru. |
| **Ion 2021** | Lansiad cyhoeddus **Cynllun Cyfarthfa.** |

**Terfynol 7.1.21**

## Crwsibl y Chwildro Diwydiannol – Dyddiadau Allweddol

| | |
|---|---|
| 1759 | Agor Gwaith Haearn Dowlais |
| 1763 | John Guest yn sylfaenu Gwaith Haearn Plymouth |
| 1765 | Anthony Bacon yn agor Gwaith Haearn Cyfarthfa |
| 1767 | John Guest yn dyfod yn rheolwr ar Waith Dowlais |
| 1777 | Bacon a Richard Crawshay yn ffurfio partneriaeth i cyflenwi arfogaeth i Ryfel Chwyldroadol America |
| 1784 | Francis Homfray yn sylfaenu Gwaith Haearn Penydarren |
| 1786 | Crawshay yn dechrau rheoli Cyfarthfa |
| 1794 | Agor Camlas Morgannwg o Ferthyr i Gaerdydd |
| 1796 | Merthyr Tydfil yn goddiweddyd Swydd Amwythig o ran allbwn haearn |
| 1802 | Y Llyngesydd Nelson yn ymweld â Chyfarthfa i brynu canonau a pheli canon |
| 1804 | Richard Trevithick yn traealu locomotif stêm cyntaf y byd ym Mhenydarren |
| 1824-5 | Adeiladu Castell Cyfarthfa ar gyfer William Crawshay II. Cafodd ei ddylunio gan Richard Lugar. Mae e'n costio £30,000 ac mae iddo, ar y pryd, 15 tŵr a 72 o ystafelloedd |
| 1831 | Terfysg Merthyr – crogi Dic Penderyn |
| 1840 | Brunel yn adeiladu rheilffordd Cwm Taf o Ferthyr i Gaerdydd |
| 1841 | Adroddiad yn datgelu amodau tai gwael ym Merthyr |
| 1845 | Merthyr yw canolfan gynhyrchu haearn fwyaf yn y byd |
| 1860 | Merthyr Tudful yw tref fwyaf Cymru |
| 1900 | Keir Hardie yn cael ei ethol yn Aelod Seneddol dros Ferthyr – Aelod Seneddol cyntaf y Blaid Lafur |
| 1908 | Gwerthu Castell Cyfarthfa i'r Cyngor |
| 1908 | Merthyr Tudful yn derbyn statws bwrdeistref sirol |
| 1913 | Y castell yn agor fel dwy ysgol ramadeg, i fechgyn a merched ar wahân |
| 1919 | Cyfarthfa yn gorffen cynhyrchu |
| 1936 | Dowlais yn gorffen cynhyrchu |
| 1947 | Agor ffatrïoedd Hoover a Thorn Lighting |
| 1966 | Trychineb Aberfan |
| 2009 | Cynhyrchu yn dod i ben yn ffatri Hoover (Candy) |
| 2013 | Ysgol Cyfarthfa yn gadael y castell |

# Cysylltiadau

**Jackie Huybs**
Swyddog y Wasg, CBS Merthyr Tudful
jackie.huybs@merthyr.gov.uk
01685 727491 / 07814 070239

**Jonathan Shaw**
Arweinydd Prosiect, Ian Ritchie Architects
jshaw@ianritchiearchitects.com

**Geraint Talfan Davies**
Cadeirydd, Sefydliad Cyfarthfa
geraint.talfan@btopenworld.com
07801 910175

**Carole-Anne Davies**
Prif Weithredwr, Comisiwn Dylunio Cymru
cad@dcfw.org